

Cablu a charu

Croeso i'n myfyrdod ar nos lau Cablyd.

Heno yr ydym yn cofio bod Iesu Grist wedi cael ei felltithio a'i gablu, ei sarhau a'i ddirmygu gan ei elynion. Brenin y Nef dan wawd. Pechod a gwrthryfel dyn yn erbyn yr hwn sydd dda yn cael ei ddatgelu am yr hyn ydyw. Mae pechod yn air hyll sy'n disgrifio agwedd meddwl hyll. Ac eto, fe gofiwn ar adeg y Pasg nad gan ein gwrthryfel ni oedd yr unig beth i ddisgrifio'n cyflwr gerbron Duw. Fe gofiwn i'r Arglwydd Iesu garu'r ddynolryw yn ffyddlon gan fod yn ufudd hyd angau'r groes. Fe'n carodd i'r eithaf. Bellach gallwn sefyll o'th flaen fel troseddwr sydd wedi derbyn maddeuant.

Gwedd: Arglwydd, ar nos lau Cablyd fel hyn, fy nymuniad yw teithio gyda thi o'r oruwchystafell i dywyllwch gardd Gethsemane i wyllo gyda thi. Arglwydd, mi gofiau i ti yno gael dy fradychu gan gusan Jwdas, ac i'th ddisgyblion ffoi, i'r tywyllwch ymddangos am eiliad fel pe bai'n cael y gair olaf. Mi gofiau i Pedr dy wadu deirgwaith ac i ti gael dy brofi gan wael bryfyn, dy chwipio a'th gam-drin.

Arglwydd, mi wn mai dim ond drwy lygaid ffydd y mae gweld ufudd-dod yn drech nag anufudd-dod, cariad yn drech na chasineb, pechod yn cael ei lyncu wrth i Iesu ddod yn bechod drosom ni. Caniatâ i mi heno dy brofi yn nistawrwydd fy ystafell. Arglwydd, tyrd ataf. Amen.

Myfyrdod

Cyn belled â bod y Testament Newydd yn y cwestiwn, croeshoeliad Iesu Grist, ei Atgyfodiad a'i Esgyniad yw canolbwynt hanes, y digwyddiad pwysicaf yn hanes y byd, ffocws naratif yr Ysgrifurau Iddewig a gobaith y greadigaeth i gyd.

A dyna yn syml a wnawn ni heno yw dilyn yr hanes fel y caiff ei gofnodi yn Efengyl Mathew.

Darlleniad: Mathew 26:47-75

Bradychu a Dal Iesu

Mc. 14:43–50; Lc. 22:47–53; In. 18:3–12

⁴⁷Yna, tra oedd yn dal i siarad, dyma Jwdas, un o'r Deuddeg, yn dod, a chydag ef dyrfa fawr yn dwyn cleddyfau a phastynau, wedi eu hanfon gan y prif offeiriaid a henuriaid y bobl.

⁴⁸Rhoddodd ei fradychwr arwydd iddynt gan ddweud, "Yr un a gusanaf yw'r dyn; daliwch ef." ⁴⁹Ac yn union aeth at Iesu a dweud, "Henffych well, Rabbi", a chusanodd ef.

⁵⁰Dyweddodd Iesu wrtho, "Gyfaill, gwna'r hyn yr wyt yma i'w wneud." Yna daethant a rhoi eu dwylo ar Iesu a'i ddal. ⁵¹A dyma un o'r rhai oedd gyda Iesu yn estyn ei law ac yn tynnu ei gleddyf a tharo gwas yr archoffeiriad a thorri ei glust i ffwrdd. ⁵²Yna dywedodd Iesu wrtho, "Rho dy gleddyf yn ôl yn ei le, oherwydd bydd pawb sy'n cymryd y cleddyf yn marw trwy'r cleddyf. ⁵³A wyt yn tybio na allwn ddeisyf ar fy Nhad, ac na roddai i mi yn awr fwy na deuddeg lleng o angylion? ⁵⁴Ond sut felly y cyflawnid yr Ysgrifurau sy'n dweud mai fel hyn

y mae'n rhaid iddi ddigwydd?" ⁵⁵A'r pryd hwnnw dywedodd Iesu wrth y dyrfa, "Ai fel at leidr, â chleddyfau a phastynau, y daethoch allan i'm dal i? Yr oeddwn yn eistedd beunydd yn y deml yn dysgu, ac ni ddaliasoch fi. ⁵⁶Ond digwyddodd hyn oll fel y cyflawnid yr hyn a ysgrifennodd y proffwydi." Yna gadawodd y disgyblion ef bob un, a ffoi.

Iesu gerbron y Sanhedrin

Mc. 14:53–65; Lc. 22:54–55, 63–71; In. 18:12–14, 19–24

⁵⁷Aeth y rhai oedd wedi dal Iesu ag ef ymaith i dŷ Caiaffas yr archoffeiriad, lle'r oedd yr ysgrifenyddion a'r henuriaid wedi dod ynghyd. ⁵⁸Canlynodd Pedr ef o hirbell hyd at gyntedd yr archoffeiriad, ac wedi mynd i mewn eisteddodd gyda'r gwasanaethwyr, i weld y diwedd. ⁵⁹Yr oedd y prif offeiriaid a'r holl Sanhedrin yn ceisio camdystiolaeth yn erbyn Iesu, er mwyn ei roi i farwolaeth, ⁶⁰ond ni chawsant ddim, er i lawer o dystion gau ddod ymlaen. Yn y diwedd daeth dau ymlaen ⁶¹a dweud, "Dywedodd hwn, 'Gallaf fwrw i lawr deml Duw, ac ymhen tridiau ei hadeiladu.'" ⁶²Yna cododd yr archoffeiriad ar ei draed a dweud wrtho, "Onid atebi ddim? Beth am dystiolaeth y rhain yn dy erbyn?" ⁶³Parhaodd Iesu'n fud; a dywedodd yr archoffeiriad wrtho, "Yr wyf yn rhoi siars i ti dyngu yn enw'r Duw byw a dweud wrthym ai ti yw'r Meseia, Mab Duw." ⁶⁴Dywedodd Iesu wrtho, "Ti a ddywedodd hynny; ond rwy'n dweud wrthyhch:

" 'O hyn allan fe welwch Fab y Dyn
yn eistedd ar ddeheulaw'r Gallu
ac yn dyfod ar gymylau'r nef.' "

⁶⁵Yna rhwygodd yr archoffeiriad ei ddillad a dweud, "Cabledd! Pa raid i ni wrth dystion bellach? Yr ydych newydd glywed ei gabledd. ⁶⁶Sut y barnwch chwi?" Atebasant, "Y mae'n haeddu marwolaeth." ⁶⁷Yna poerasant ar ei wyneb a'i gernodio; trawodd rhai ef ⁶⁸a dweud, "Proffwyda i ni, Feseia! Pwy a'th drawodd?"

Pedr yn Gwadu Iesu

Mc. 14:66–72; Lc. 22:56–62; In. 18:15–18, 25–27

⁶⁹Yr oedd Pedr yn eistedd y tu allan yn y cyntedd. A daeth un o'r morynion ato a dweud, "Yr oeddith tithau hefyd gyda Iesu'r Galilead." ⁷⁰Ond gwadodd ef o flaen pawb a dweud, "Nid wyf yn gwybod am beth yr wyt ti'n sôn." ⁷¹Ac wedi iddo fynd allan i'r porth, gwelodd morwyn arall ef a dweud wrth y rhai oedd yno, "Yr oedd hwn gyda Iesu'r Nasaread." ⁷²Gwadodd yntau drachefn â llw, "Nid wyf yn adnabod y dyn." ⁷³Ymhen ychydig, dyma'r rhai oedd yn sefyll yno yn dod at Pedr ac yn dweud wrtho, "Yn wir yr wyt ti hefyd yn un ohonynt, achos y mae dy acen yn dy fradychu." ⁷⁴Yna dechreuodd yntau regi a thyngu, "Nid wyf yn adnabod y dyn." Ac ar unwaith fe ganodd y ceiliog. ⁷⁵Cofiodd Pedr y gair a lefarodd Iesu, "Cyn i'r ceiliog ganu, fe'm gwedi i deirgwaith." Aeth allan ac wylo'n chwerw.

Cyfnod o dawelwch

O edrych ar ein llyfrau emynau, mae caneuon Cristnogol ar hyd y canrifoedd yn llawn o fyfyrddodau dwys a gobeithiol:

Emyn 500

Cof am y cyfiawn Iesu,
y Person mwyaf hardd,
ar noswaith drom anesmwyth
bu'n chwysu yn yr ardd,
a'i chwys yn ddafnau cochion
yn syrthio ar y llawr:
bydd canu am ei gariad
i dragwyddoldeb mawr.

Cof am y lluo o filwyr
â'u gwayw-ffyn yn dod
i ddal yr Oen diniwed
na wnaethai gam erioed;
gwrandewch y geiriau ddwedodd -
pwy allsai ond efe?
"Gadewch i'r rhain fynd ymaith,
cymerwch fi'n eu lle."

Cof am yr ŵyneb siriol
y poerwyd arno'n wir;
cof am y cefen gwerthfawr
lle'r arddwyd cwysau hir;
O annwyl Arglwydd Iesu,
boed grym dy gariad pur
yn torri 'nghalon galed
wrth gofio am dy gur.

(WILLIAM LEWIS, m. 1794)

Canys felly y carodd Duw y byd fel y rhoddodd efe ei Uniganedig Fab fel na choller pwy bynnag a greddo ynddo ef ond caffael ohono fywyd tragwyddol (Ioan 3:16).

Gweddi'r Arglwydd

Y Fendith